**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : SF/MD/312/15

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl David,

3 Chwefror 2015

**Cyllid iechyd a diwygio**

Rwy'n cyfeirio at eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr sy'n gofyn am ragor o wybodaeth a fyddai'n eich helpu chi i wneud penderfyniad ynghylch a ddylid ymgymryd â darn o waith i ddiwygio iechyd cyn diwedd y Cynulliad hwn ai peidio. Er mwyn helpu i lywio ystyriaethau eich Pwyllgor o argymhellion y Pwyllgor Cyllid, rydych wedi gofyn am ragor o wybodaeth, a amlinellir isod.

**Cyllid presennol**
*Cadarnhad ynghylch a oes cynlluniau wedi'u cadarnhau ar gyfer y cyllid ychwanegol ar gyfer 2014-15 a 2015-16, i gael ei ddefnyddio i ddiwygio gwasanaethau iechyd, neu i gynnal y lefelau gwasanaeth presennol yn unig*

Mae'r adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Nuffield ym mis Mehefin 2014 yn nodi'n glir yr heriau ariannol sy'n wynebu'r GIG yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi'r brif dystiolaeth gefnogol ar gyfer y cyllid ychwanegol i'w ddarparu i'r GIG. Un o brif gasgliadau'r adroddiad oedd bod y GIG yng Nghymru yn fforddiadwy yn y dyfodol os yw'n derbyn cyfran o incwm cenedlaethol ac yn parhau i sicrhau'r arbedion o ran cynhyrchiant ac effeithlonrwydd a gafwyd yn y gorffennol. Bydd y camau gweithredu ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn parhau, gyda mwy o effeithlonrwydd posibl yn digwydd yn sgil canoli gwasanaethau arbenigol iawn. Byddai hyn yn golygu darparu mwy o ofal yn y gymuned sy'n agos at gartrefi pobl, atal pobl rhag cael eu derbyn i ysbyty am driniaethau arferol, rhagor o integreiddio â gwasanaethau cymdeithasol, a datblygu agenda o ofal iechyd darbodus ar draws yr holl wasanaethau a ddarperir gennym.

O ganlyniad, defnyddir y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft, ochr yn ochr â'r gyllideb gofal iechyd yn ei chyfanrwydd, i barhau i ddarparu'r gwasanaethau diogel o ansawdd uchel a ddisgwylir gan ein cleifion. Ar yr hun pryd, bydd hyn yn sicrhau bod y gyllideb gyfan yn cael ei defnyddio mewn modd sy'n cyfrannu at ail-lunio a diwygio'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau iechyd er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa fwy cynaliadwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r canllawiau cynllunio newydd, a gyhoeddwyd ar 31 Hydref 2014, yn nodi'n glir ein disgwyliadau o ran y newidiadau rydym yn gobeithio eu gweld. Bydd hyd a lled y diwygiadau a'r newidiadau y mae sefydliadau'r GIG yn bwriadu eu gwneud yn amlwg o fewn eu cynlluniau integredig tair blynedd a gyflwynir erbyn 30 Ionawr 2015. Er mwyn cael cydsyniad Llywodraeth Cymru bydd angen iddynt ddangos yn glir sut y bydd diwygiadau o'r fath yn cyfrannu at ddiwallu amcanion polisi a galluogi parhad o ran darparu gwasanaethau cynaliadwy.

*Cadarnhad o ddosbarthiad, a gynlluniwyd neu a gytunwyd, y cyllid ychwanegol o £200 miliwn sydd ar gael ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd unigol yn 2014-15, cyn gynted ag y penderfynir ar y ffigurau hyn, gan gynnwys sut y cyfrifwyd y dyraniadau*

Roedd yn ofynnol i bob sefydliad GIG gyflwyno cynlluniau gwasanaeth ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn unol â'r canllawiau cynllunio newydd a'r gofynion ynddynt. Er bod rhai sefydliadau heb lwyddo i gwblhau'r cynlluniau tair blynedd cytbwys yn foddhaol ac yn unol â'r gofynion, gofynnwyd iddynt sicrhau eu bod o leiaf yn cyflwyno cynlluniau cadarn wedi'u cymeradwyo gan y bwrdd am flwyddyn.

Mae'n bwysig fod sefydliadau'n parhau i fod yn atebol i ddarparu hyn yn erbyn yr ymrwymiadau cynllunio gwreiddiol a gymeradwywyd gan eu byrddau. O ganlyniad, dyrannwyd y £200 ychwanegol yn unol â'r gofynion adnodd gwreiddiol a amlinellir yn eu cynlluniau.

Mae angen cyfran o'r £200m i dalu am y dyfarniad cyflog, a gaiff ei ddosbarthu ar wahân. Dyrannwyd y £175 miliwn sy'n weddill fel a ganlyn:

| **Sefydliad** | **Dyraniad Ychwanegol o** |
|---|---|
| | **£m** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 26.100 |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 26.700 |
| Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | 35.000 |
| Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | 15.500 |
| Bwrdd Iechyd Cwm Taf | 8.000 |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 38.700 |
| Bwrdd Iechyd Powys | 25.000 |
| **Cyfanswm** | **175.000** |

*Cadarnhad o'r cyllid ychwanegol sydd ar gael i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd unigol yn 2015-16, gan gynnwys sut y cyfrifwyd y dyraniadau hyn, pan fyddant ar gael*

Rwyf eisoes wedi rhoi gwybod i'r pwyllgor y byddai dyraniadau ychwanegol yn 2015-16 yn seiliedig ar fformiwla dyrannu adnodd a ddiweddarwyd. Bydd angen rhoi'r £200m a ddyrannwyd yn 2014-15 i waelodlinau sefydliadau'r GIG ar y sail hon.

Fel rhan o lythyr Dyrannu Refeniw Byrddau Iechyd Lleol 2015-16, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014 , dyrannwyd £200 miliwn yn ychwanegol, fel a ganlyn:

| | **Cyfran Darged Anghenion Uniongyrchol - Rhagfyr 2014** | **Dyraniadau Ychwanegol - 2014** |
|---|---|---|
| | **%** | **£m** |
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 17.908% | 35.815 |
| Aneurin Bevan | 19.132% | 38.264 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 21.257% | 42.515 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 14.395% | 28.789 |
| Cwm Taf | 11.112% | 22.225 |
| Hywel Dda | 12.128% | 24.255 |
| Powys | 4.069% | 8.137 |
| **Cyfanswm / Cyfartaledd** | **100.000%** | **200.000** |

Bydd derbyn cynlluniau gwasanaeth integredig tymor canolig sefydliadau'r GIG cyn dechrau y flwyddyn ariannol nesaf yn darparu'r dystiolaeth bellach sy'n ofynnol i lywio'r gwaith o ddosbarthu unrhyw ddyraniadau ychwanegol o'r gronfa wrth gefn fach sydd gan yr AIGC. Bydd hyn yn ategu'r hyblygrwydd ariannol ychwanegol y gellir gofyn amdano a'i ddarparu dan y drefn newydd a gyflwynwyd yn dilyn Deddf GIG Cymru (Cyllid) 2014.

*Amlinelliad o sut y bydd y cyllid ychwanegol o £70 miliwn a gyhoeddwyd gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn dilyn Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU, yn cael ei dargedu i "gefnogi'r GIG yng Nghymru i ymgymryd â'r gwaith diwygio, a'r newid sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth iechyd yng Nghymru", fel y nodwyd yn ei datganiad ysgrifenedig ar 3 Rhagfyr*

Fel y soniais yn y nodyn a anfonwyd atoch ar 28 Ionawr, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig a'i anfon at holl Aelodau'r Cynulliad ar y diwrnod hwnnw. Roedd y datganiad yn amlinellu sut y byddai'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r GIG yn cael ei fuddsoddi.

*Crynodeb o'r dyddiadau allweddol yn amserlen 2015 ar gyfer cytuno ar gynlluniau tair blynedd, gan ddechrau gyda'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau yn Ionawr 2015.*

Roedd Fframwaith Cynllunio'r GIG a gyhoeddwyd 31 Hydref 2014 yn cynnwys yr amserlen ganlynol ar gyfer Cymeradwyo'r Cynllun.

| **Gweithredu** | **Amserlen** | **LIC** | **GIG** |
|---|---|---|---|
| Byrddau'r GIG yn cymeradwyo fersiwn 'Drafft Terfynol' o'r cynlluniau integredig tymor canolig | Ionawr 2015 | | ✓ |
| Sefydliadau'r GIG yn cyflwyno cynlluniau 'Drafft Terfynol' a gymeradwywyd gan y Bwrdd i LIC | 31 Ionawr 2015 | | ✓ |
| Proses graffu LIC | Chwefror – Mawrth 2015 | ✓ | |
| Byrddau'n ymateb i adborth o'r broses graffu ac yn diwygio'r Cynlluniau yn unol â hynny. Y Byrddau wedyn yn cymeradwyo'r fersiynau terfynol | Cyn 31 Mawrth 2015 | | ✓ |

**Cyllid a chynaliadwyedd hirdymor yn y dyfodol**

*Amlinelliad o ganlyniadau ychwanegol, os o gwbl, sydd i'w cyflawni gyda'r cyllid ychwanegol yn 2014-15 a 2015-16*

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, bydd y cyllid ychwanegol yn galluogi'r GIG i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a'r canlyniadau positif a ddisgwylir gan ein cleifion, ac ar yr un pryd yn ail-lunio a diwygio ein gwasanaethau. Mae/Bydd y canlyniadau gofynnol o ran y ddarpariaeth a'r camau angenrheidiol i'w cyflawni yn cael eu nodi'n glir yng Nghynlluniau Integredig Tymor Canolig tair blynedd sefydliadau'r GIG.

*Amlinelliad o'r trefniadau sydd wedi'u gwneud neu a fydd yn cael eu gwneud i fonitro canlyniadau'r buddsoddiad hwn*

Mae gennym sawl cyfrwng ar gyfer monitro a goruchwylio perfformiad sefydliadau'r GIG er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau ac yn parhau ar y trywydd i gyflawni yn erbyn y cynlluniau gwasanaeth a gymeradwywyd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfarfodydd misol o Brif Weithredwyr lle bydd craffu ar y ddarpariaeth a'r perfformiad ariannol.

:

- Cynhelir cyfarfodydd o'r Tîm Gweithredol ar y Cyd bob chwe mis â phob BILl ac Ymddiriedolaeth. Bydd aelodau o Dîm y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Prif Weithredwr a Thîm Gweithredol y BILl neu Ymddiriedolaeth unigol yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

- Cynhelir cyfarfod o'r Bwrdd Cyflawni Integredig yn fisol a'i gadeirio gan Gyfarwyddwr y Rhaglen Gyflawni neu Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru. Mae'r cyfarfod hwn yn monitro cynnydd perfformiad BILl / Ymddiriedolaethau yn erbyn gofynion cyflawni Ansawdd a Diogelwch Llywodraeth Cymru.

- Cynhelir cyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni yn fisol, er y gallant fod yn llai aml pan ystyrir fod y sefydliadau'n cyflawni o ran perfformiad ac ansawdd.

- Cyflwyniad manwl o ffurflenni monitro ariannol misol. Caiff perfformiad ariannol ei adolygu'n fanwl a gofynnir am esboniadau am unrhyw amrywiadau adweithiol o'r cynllun.

Yn ogystal â hyn, mae gennym hefyd drefniadau o ran cynnydd ac ymyrryd a ddatblygwyd mewn cytundeb ag AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru, lle rhennir gwybodaeth am berfformiad a chynnydd gan sefydliadau'r GIG..

*Amlinelliad o unrhyw gynlluniau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu a yw gwasanaethau yn cael eu diwygio fel y bwriadwyd, a hefyd y lefelau cyllid sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwasanaeth iechyd ar ôl 2015-16, er mwyn sicrhau bod darparu gwasanaethau yn parhau i fod yn gynaliadwy.*

Un o'n prif ddulliau o archwilio a yw gwasanaethau'n cael eu diwygio yw drwy'r cynlluniau tymor canolig. Asesir a yw gwasanaethau'n cael eu diwygio drwy adolygu, craffu a chymeradwyo'n ffurfiol y Cynlluniau Integredig Tymor Canolig. Yna bydd perfformiad a darpariaeth y diwygiadau hynny i'r gwasanaethau'n cael eu rheoli drwy'r prif drefniadau rheoli perfformiad y manylir arnynt uchod.

Mae'r lefelau cyllid sy'n ofynnol ar gyfer y gwasanaeth iechyd y tu hwnt i 2015-16 yn amlwg yn fater i Lywodraeth Cymru ei ystyried yng nghyd-destun y setliad o San Steffan. Cyhoeddwyd adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield "Degawd o Galedi yng Nghymru?" ym mis Mehefin 2014 ac mae'n asesiad annibynnol allweddol o'r heriau a'r gofynion ariannu.

Yn gywir,

Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services